
Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol

Datganiad ar gyfarwyddyd cynlluniau argyfwng, dileu rhifau a chanllawiau ar derfynu contractau

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Mawrth 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae'r datganiad hwn yn sôn am y canlynol:

- a) diweddarau cyfarwyddyd sy'n nodi pa gyrff cyhoeddus gaiff ofyn i'r diwydiant wneud trefniadau i adfer gwasanaethau cyfathrebiadau os bydd trychineb;
- b) ymestyn ein pŵer ymhellach o ran dileu rhifau ffôn sydd ddim yn cael eu defnyddio'n unol â'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol, neu sy'n cael eu camdefnyddio mewn ffordd arall;
- c) cynnig canllawiau ar gyfer gweithdrefnau terfynu contractau.

Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2018, sef yr un diwrnod y mae'r Amodau Cyffredinol yn dod i rym.

Cynnwys

Adrannau

1. Crynodeb gweithredol

3-4

1. Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- 1.1 Yr 'Amodau Hawliau Cyffredinol' (yr 'AHCau') yw'r amodau rheoleiddio sy'n berthnasol i bob darparwr rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig sy'n gweithredu yn y DU ('**darparwyr cyfathrebiadau**' neu '**DCau**').
- 1.2 Ar 19 Medi 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi datganiad (sef '**datganiad ac ymgynghoriad mis Medi 2017**') yn diddymu'r ACau cyfredol gan eu disodli gyda set ddiwygiedig o AHCau a fydd yn dod i rym ar 1 Hydref 2018.¹ Ynghyd â'n penderfyniadau terfynol, fe wnaethom hefyd ymgynghori ar rai cynigion canlyniadol pellach:
- a) diweddarau cyfarwyddyd a wnaed yn 2003 sy'n nodi pa gyrff cyhoeddus gaiff ofyn i'r diwydiant wneud trefniadau i adfer gwasanaethau cyfathrebiadau os bydd trychineb;
 - b) ymestyn ein pŵer ymhellach o ran dileu rhifau ffôn sydd ddim yn cael eu defnyddio'n unol ag amod B1 (o'r AHCau diwygiedig) o'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol (y '**Cynllun Rhifau**'), neu sy'n cael eu camddefnyddio mewn ffordd arall;
 - c) cynnig canllawiau ar gyfer gweithdrefnau terfynu contractau.
- 1.3 Yn y ddogfen hon, rdyn ni wedi nodi ein penderfyniadau terfynol o ran y cynigion a oedd yn natganiad ac ymgynghoriad Medi 2017, a'r rhesymau drostynt.

Ymatebion i'r Ymgynghoriad

- 1.4 Cawsom ddau ymateb² i'r cyfarwyddyd cynlluniau argyfwng arfaethedig; saith ymateb³ i'n cynnig ar ddileu rhifau; a saith ymateb⁴ i'r canllawiau arfaethedig ar derfynu contractau.
- 1.5 Yn gryno:
- a) Roedd BT a Telecom2 yn cytuno'n gyffredinol â'r cyfarwyddyd cynlluniau argyfwng arfaethedig;
 - b) Roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau ar ein cynigion ar ddileu rhifau yn cytuno â'n cynigion mewn egwyddor. Fodd bynnag, gofynnodd yr ymatebwyr am eglurhad o sut y byddai dileu rhifau sydd wedi'u dyrannu yn digwydd yn ymarferol gan awgrymu ein bod ni'n mynd i'r afael â rhai materion gweithredu yn ymwneud â dileu bloc cyfan o rifau mewn achosion o gamddefnyddio rhifau;
 - c) Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'n canllawiau arfaethedig ar y gweithdrefnau ar gyfer terfynu contractau yn cytuno, mewn egwyddor, bod arweiniad yn y maes hwn yn

¹Datganiad ac ymgynghoriad Ofcom 19 Medi 2017 o'r enw 'Adolygu'r Amodau Hawliau Cyffredinol':

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/review-general-conditions>

² BT a Telecom2.

³ BT, Colt, Nexbridge, Telecom2, Three, UKTA a Virgin Media. Rhoddodd Colt, Nexbridge ac UKTA eu sylwadau ar ddileu rhifau mewn ymateb i'n hymgynghoriad ar ddarparu canllawiau ar ddarparu o cyfleusterau Adnabod y Galwr.

⁴ BT, Vodafone, Sky, Three, Virgin Media, Telecom2 a Verastar.

fuddiol. Fodd bynnag, codwyd nifer o bryderon gan ymatebwyr ynglŷn â chynnwys y canllaw, yn benodol ynglŷn â lefel y rhagnodi, y cysylltiad gydag anghenion rheoleiddio eraill, ei hyd a'i led, a'r gwahaniaeth rhwng arferion gorau a gofynion sylfaenol.

Penderfyniadau Ofcom

Y cyfarwyddyd cynlluniau argyfwng newydd

1.6 Rydyn ni wedi penderfynu cyflwyno ein cynigion ar gyfer y cynlluniau argyfwng newydd.

Dileu rhifau sydd wedi eu dyrannu

1.7 Rydyn ni wedi penderfynu cyflwyno ein cynigion o ran ein pwerau i ddileu rhifau ffôn sydd ddim yn cael eu defnyddio'n unol ag amod B1, y Cynllun Rhifau, neu sy'n cael eu camdefnyddio mewn ffordd arall.

Canllaw Ofcom ynglŷn â gweithdrefnau ar gyfer terfynu contractau

1.8 Rydyn ni wedi penderfynu cyhoeddi canllaw o dan amod C1.3. Rydyn ni wedi gwneud nifer o newidiadau i'r canllaw y gwnaethon ni ei gynnig ym mis Medi 2017, a hynny o ganlyniad i sylwadau gan randdeiliaid. Yn benodol rydyn ni wedi dileu'r manylebau manwl ac yn hytrach wedi canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr yr ydym yn eu disgwyl o weithdrefnau terfynu y DCau. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu gwahaniaeth cliriach rhwng esiamplau o arferion da a gofynion sylfaenol ar gyfer cydymffurfio.

1.9 Rydyn ni wedi cyfuno'r canllaw newydd hwn ar amod C1.3 gyda'n canllaw cyfredol ar amod C1.6 er mwyn creu un ddogfen ar Atodiad A3, sy'n cael ei gyhoeddi fel atodiad ar wahân.⁵

Y camau nesaf

1.10 Bydd y cyfarwyddyd cynlluniau argyfwng newydd, y newidiadau pellach rydyn ni wedi penderfynu eu gwneud i amod B1, a'r arweiniad ar brosesau terfynu, yn dod i rym ar 1 Hydref 2018, sef yr un diwrnod y mae'r AHCau yn dod i rym.

⁵ https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0016/112282/Guidance-under-General-Condition-C1-contract-requirements.pdf